Swyddog yr Amgylchedd a Chynaladwyedd

Mae Swyddog yr Amgylchedd a Chynaladwyedd yn cynrychioli myfyrwyr ac yn ymgyrchu ar faterion sy'n perthyn i'r amgylchedd a datblygiad cynaliadwy. Gan weithio gyda swyddogion, mudiadau a myfyrwyr eraill, mae'n sicrhau bod yr Undeb a'r Brifysgol yn gwella effaith amgylcheddol eu gwaith.

Bydd Swyddog(ion) yr Amgylchedd a Chynaladwyedd yn gyfrifol am y canlynol:

1. Cynrychioli myfyrwyr ar faterion sy'n perthyn i'r amgylchedd a chynaladwyedd.
2. Cydlynu ac arwain ymgyrchoedd ar faterion sy'n perthyn i'r amgylchedd a chynaladwyedd (lle bo hynny'n briodol).
3. Gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth a phwynt cyswllt i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol.
4. Cynghori UMAber ar ffyrdd y gall wella effaith amgylcheddol ei waith, yn lleol ac yn fyd-eang.
5. Gweithio gyda myfyrwyr, swyddogion llawn-amser a swyddogion eraill ledled Cymru a'r DU ar faterion amgylcheddol a chynaladwyedd.

Cyfrifoldebau'r holl Swyddogion Gwirfoddol

1. Mynychu holl gyfarfodydd priodol Undeb Aber a'r Brifysgol gan gynnwys Cyfarfodydd y Senedd a Pharthau.
2. Ymddwyn mewn modd proffesiynol ac addas bob amser.
3. Sicrhau bod yr holl benderfyniadau a gweithredu'n cydymffurfio â chyfansoddiad UMAber a pholisïau cyfredol Undeb Aber.
4. Bod yn barod i adrodd ar gynnydd yr hyn sydd yn eu cylch gorchwyl.
5. Cyfarfod â chydlynu'n rheolaidd â Swyddogion Ymddiriedolwyr ac aelodau staff.

Ni fwriedir i Bortffolios y Swyddogion Gwirfoddol (y cyfeirir atynt hefyd fel Swyddogion “Rhanamser”) fod yn rhestrau holl-gynhwysfawr o'r gweithdrefnau a thasgau a ddaw i ran y swyddog(ion) hynny. Serch hynny, mae'n cynnwys prif ddisgwyliadau UMAber o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd.

Am ragor o wybodaeth: Cyfansoddiad